# Y Wefan a'r Defnydd o Gwcis

## Polisi Preifatrwydd a Chwcis

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth bersonol a roddir gennych Chi i Ni ("Gwybodaeth Defnyddiwr") drwy'r wefan sydd i'w gweld yma: www.atebgroup.co.uk ("Y Wefan"). Mae'r Polisi hwn wedi'i lunio i'ch helpu i deimlo'n fwy hyderus ynghylch preifatrwydd a diogelwch eich manylion personol.

Bydd "Chi" yn golygu chi, sef defnyddiwr y Wefan. Bydd "Ni" yn golygu ateb Group Limited ac unrhyw un o'i is-gwmnïau. Bydd "Defnyddwyr" yn golygu defnyddwyr y Wefan ar y cyd a/neu'n unigol fel y mae'r cyd-destun yn caniatáu.

Dim ond gan gydymffurfio'n llwyr â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig y byddwn yn prosesu data personol.

## Casglu Data

### Sut y byddwn efallai'n defnyddio eich data...

Drwy nodi eich Gwybodaeth Defnyddiwr, rydych yn derbyn y byddwn efallai'n cadw eich Gwybodaeth Defnyddiwr ac y bydd efallai yn ein meddiant Ni neu unrhyw gwmni trydydd parti sy'n ei phrosesu ar ein rhan.

Bydd gennym hawl i ddefnyddio eich Gwybodaeth Defnyddiwr at y dibenion canlynol:

- Er mwyn cyflawni ymchwil i'r farchnad, gan gynnwys dadansoddiad ystadegol o ymddygiad defnyddwyr y byddwn efallai'n ei ddatgelu i drydydd partïon ar ffurf lle mae'r wybodaeth wedi'i dwyn ynghyd a lle mae manylion personol wedi'u tynnu allan ohoni.
- Er mwyn ein galluogi i gydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae'r gyfraith yn eu gosod arnom.
- Er mwyn anfon negeseuon atoch o bryd i'w gilydd (a allai gynnwys e-bost) am wasanaethau a digwyddiadau.

Er hwylustod i chi, gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl drwy glicio ar y ddolen gyswllt ar gyfer dad-danysgrifio ("unsubscribe") mewn negeseuon e-bost a anfonir gennym. Nodwch hefyd na fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd partïon i'w galluogi i anfon negeseuon marchnata atoch yn uniongyrchol, oni bai ein bod wedi cael caniatâd gennych i wneud hynny.

## Cwcis

Dylech fod yn ymwybodol y bydd gwybodaeth a data efallai'n cael eu casglu'n awtomatig

drwy ddefnyddio Cwcis. Ffeiliau testun bach yw “Cwcis”, sy’n storio gwybodaeth sylfaenol y gall gwefan ei defnyddio i adnabod pobl sy’n ymweld â’r wefan fwy nag unwaith ac, er enghraifft,

i adalw eich enw os yw wedi'i ddarparu o'r blaen. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno i arsylwi ymddygiad a llunio data a ddygir ynghyd, er mwyn gwella'r Wefan, targedu hysbysebion ac asesu effeithiolrwydd cyffredinol hysbysebion o'r fath. Ni fydd Cwcis yn eu clymu eu hunain wrth eich system ac ni fyddant yn niweidio eich ffeiliau. Os nad ydych am i wybodaeth gael ei chasglu drwy'r defnydd o Gwcis, mae gweithdrefn syml i'w chael yn y rhan fwyaf o borwyr, sy'n eich galluogi i wrthod neu dderbyn Cwcis. Fodd bynnag, dylech nodi y gallai analluogi'r opsiwn Cwcis effeithio ar wasanaethau sydd "wedi'u personoli".

## Diogelwch a Chadw Data

Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ym maes Diogelu Data o ran hyd y cyfnod y byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei datgelu i ni.

## Diweddariadau

Mae'n bosibl y byddwn yn newid y polisi preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd, a dylech ei ddarllen yn rheolaidd. Os byddwch yn defnyddio'r wefan, bernir y byddwch yn derbyn y polisi preifatrwydd sy'n bodoli ar y pryd.

## Cysylltu

Dylai unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y polisi hwn gael eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost canlynol: mydata@atebgroup.co.uk.

Adolygwyd: Chwefror 2025